# Monitro

*CYNLLUN RHEOLI CARBON*

## *PAM FOD ANGEN MONITRO DEFNYDD YNNI?*

Mae monitro ein defnydd ynni yn hanfodol er mwyn deall faint o ynni da ni yn ei ddefnyddio.

Ni fedrwn reoli ein defnydd ynni os nad ydym yn gwybod faint da ni yn ei ddefnyddio!

Mae hi'n bwysig hefyd i ni fonitro ein hunain gan nad yw'r cwmnïau trydan a nwy yn gyrru rhywun allan i ddarllen eich mesuryddion mor aml ac o'r blaen.

Y ffordd orau i fonitro yw i ddarllen eich mesuryddion yn gyson.

Bydd gan rai safleoedd fesuryddion awtomatig (AMR), sydd yn gyrru darlleniad o'r mesurydd yn awtomatig gan ddefnyddio signal ffon symudol, a bydd hwn yn cael ei gofnodi gan y cwmni trydan.

Bydd data yn cael ei yrru unwaith y mis ar gyfer rhai safleoedd, a bydd data safleoedd eraill yn cael ei yrru bob hanner awr.

Os yw'r data yma ar gael ar gyfer eich safle chi, defnyddiwch ef i weld faint o drydan a nwy sydd yn cael ei ddefnyddio a phryd.

Ystyriwch yr isod wrth edrych ar y data:

- Ydy'r defnydd yn fwy neu llai na'r un cyfnod y flwyddyn diwethaf?
- Ydy'r defnydd yn cyd-fynd a'r adeg o'r flwyddyn (e.e. mwy o nwy yn cael ei ddefnyddio dros gyfnodau oerach, defnydd yn lleihau yn sylweddol yn ystod gwyliau ysgol)?
- Os yw defnydd wedi cynyddu, oes yna reswm am hyn? (e.e. offer newydd ychwanegol, defnydd o'r ysgol ar ddydd Sadwrn)
- Os oes data bob hanner awr, gallwch hefyd edrych ar faint o drydan neu nwy sydd yn cael ei ddefnyddio tu allan i oriau agor, a ceisio meddwl am ffyrdd i leihau hyn.

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL